HUGHES, JANE (Deborah Maldwyn; 1811 - 1878), emynyddes

Enw: Jane Hughes
Ffugenw: Deborah Maldwyn
Dyddiad geni: 1811
Dyddiad marw: 1878
Rhiant: Ruth Hughes (née Evans)
Rhiant: John Hughes
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: emynyddes
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth; Crefydd
Awduron: John James Jones, E. Wyn James

Yn ôl copi John Hughes o lyfr bedyddiadau Capel Uchaf Pontrobert (yng nghasgliad llawysgrifau D. Teifigar Davies yn Ll.G.C.) ymddengys mai trydydd plentyn (a thrydedd ferch) y Parch. John Hughes (1775 - 1854), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ym Mhontrobert a Ruth (Evans) ei briod oedd Jane Hughes, ac iddi gael ei geni ar 25 Mehefin a'i bedyddio ar 2 Gorffennaf 1811 gan Evan Griffiths, Meifod, a oedd newydd ei ordeinio ym Mehefin 1811 yn y Bala. Bu farw ym Mhorthmadog, 26 Ebrill 1878.

Dengys ei gweithiau cyhoeddedig ei bod yn weithgar yn cyfansoddi llyfrau o 1846 hyd 1877. Emynau a barddoniaeth grefyddol arall ydyw prif gynnwys ei gweithiau. Er ei bod yn amlwg bod Jane Hughes yn meddu ar deimladau wir grefyddol, nid oes ond ychydig o'i hemynau y gellir dweud amdanynt eu bod yn gyfansoddiadau llwyddianus. Y mae y rhan fwyaf ohonynt mewn mesur sydd yn rhy hir a thrwm i fod yn addas at ganu cynulleidfaol. Ysgrifennodd tua 15 o weithiau - llyfrynnau bychain 16mo o ryw 20 tudalen yr un ar gyfartal. Y prif rai, efallai, ydyw *Llyfr Hymnau* (Caerfyrddin, 1846), *Galargan am y diweddar Barch. Henry Rees, Liverpool* (Caerfyrddin, 1869), *Yr Epha lawn o ymborth ysprydol i bererinion Seion* (Caernarfon, 1877), *Telyn y Cristion* (Caernarfon, 1877), *Penillion ar enwau a swyddau Iesu Grist* (Caerfyrddin, d.d.), a *Cwyn a chysur y credadyn* (Pontfaen, 1889).

Awduron

John James Jones, (1892 - 1957)

Dr E. Wyn James

Ffynonellau

NLW MS 9260A

ei gweithiau cyhoeddedig

Cymru (O.M.E.), Cyfrol i, t.13, t.58; Cyfrol xx, Cymruesau'r Ganrif, t.14, Jane Hughes, Pontrobert, t.187-8; Cyfrol xli, Hen Garolau: Myfyrdod y Cystuddiedig, tt.267-8; Cyfrol xlvi, Rhwng dwy erthygl124; Cyfrol liii, Daniel Davies, Ton, t.23; Cyfrol lvi, Emynyddesau Sir Drefaldwyn, t.113 (gyda llun)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Jane Hughes

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q13129299

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu